Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

LLYFRAUaRHAGOR
BOOKS&BEYOND
LlyfrgellacAdnoddauDysgu | Library&LearningResources

# LLAWLYFR CYFEIRNODI

# APA

PCYDDS: Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

Fersiwn 1.3

# Croeso

Croeso i 2il argraffiad diwygiedig Llawlyfrau Cyfeirnodi Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant!

Mae cyfeirnodi'n fanwl gywir yn sgìl hanfodol i'w ddysgu yn ystod eich astudiaethau, a lluniwyd y llawlyfrau hyn i'ch cefnogi yn eich dysgu ac i helpu i'ch arwain drwy'r hyn sy'n gallu ymddangos yn eithaf dryslyd ar brydiau. Mae'r llawlyfrau cyfeirnodi ar gael i'r pedair arddull a ddefnyddir yn y Drindod Dewi Sant, gydag awgrymiadau ar gyfer adnoddau pellach, manwl a chyngor ynghylch cael cefnogaeth gan eich Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd.

Hoffem ddiolch i'r staff academaidd a gymerodd ran am eu hamser a'u mewnbwn wrth ddatblygu'r llawlyfrau hyn, gan obeithio eu bod yn darparu adnodd defnyddiol.

Rydym yn falch o dderbyn adborth ar y canllawiau hyn, a fydd yn cael eu hadolygu. Cysylltwch â **library@uwtsd.ac.uk** gydag unrhyw awgrymiadau.

**Tîm Cyswllt Academaidd, Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, y Drindod Dewi Sant**

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3
Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn? ........ 3
Beth yw cyfeirnodi? ........ 3
Sut dylwn i osgoi llên-ladrad? ........ 4
Oes gennych unrhyw gyngor cyn i mi ddechrau fy ngwaith? ........ 4
Sut caf i help a chefnogaeth bellach? ........ 4
Cyfeirnodi APA: Yr Hanfodion ........ 5
Cyfeiriadau yn y testun ........ 5
Rhestr gyfeiriadau ........ 5
Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhoi yn fy ngwaith? ........ 6
Dyfyniadau ........ 6
Dyfyniad hir - mwy na 40 gair ........ 6
Dyfyniad byr - hyd at 40 gair ........ 6
Aralleirio a chrynhoi ........ 6
Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau? ........ 7
1. Llyfrau ac e-lyfrau ........ 7
2. Erthyglau cyfnodolion ........ 10
3. Rhyngrwyd ........ 11
4. Cyfarfodydd a symposia ........ 12
5. Gwybodaeth heb ei chyhoeddi a chyfweliadau personol ........ 13
6. Traethodau ymchwil Doethuriaeth a thraethodau hir Meistr ........ 14
7. Adroddiadau a chanllawiau ........ 15
8. Cyhoeddiadau cyfreithiol ........ 16
9. Cyhoeddiadau'r llywodraeth ........ 17
Meddalwedd Gyfeirnodi ........ 17

## Cyflwyniad

Argymhellir pedair arddull gyfeirnodi i'w defnyddio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant:

- APA (Cymdeithas Seicolegol Ameri)
- Harvard
- IEEE (Sefydliad y Peirianwyr Trydanol ac Electroneg)
- MHRA (Cymdeithas Ymchwil y Dyniaethau Modern)

Cewch wybod pa safon gyfeirnodi y dylech ei defnyddio drwy edrych yn eich Llawlyfr Rhaglen Astudio. Mae'r holl lawlyfrau cyfeirnodi ar gael ar-lein: **https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/hanfodion-myfyrwyr/llawlyfrau-cyfeirnodi/**

## Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn?

Diben y llawlyfr hwn yw darparu ar eich cyfer egwyddorion sylfaenol cyfeirnodi, a'ch rhoi ar ben ffordd i ddeall popeth am gyfeirnodi. Mae'r llawlyfr yn darparu enghreifftiau o sut i greu dyfyniadau yn y testun a chyfeiriadau ar gyfer rhai o'r ffynonellau mwyaf cyffredin y byddech efallai'n dod ar eu traws yn ystod eich astudiaethau.

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich testun yn y blwch hwn.

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich rhestr gyfeiriadau yn y blwch hwn.

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r llawlyfr hwn fod yn gynhwysfawr, a cheir enghreifftiau ychwanegol, a chyfarwyddyd yn:

American Psychological Association. (2019). *Publication manual of the American Psychological Association* (7th ed). American Psychological Association.

Mae copïau ar gael yn llyfrgelloedd y Drindod Dewi Sant yn rhif lleoliad 808.06615 PUB. Mae enghreifftiau ychwanegol a thiwtorial ar-lein rhad ac am ddim ar gael hefyd ar wefan arddull yr APA yn **www.apastyle.org**

## Beth yw cyfeirnodi?

Wrth lunio aseiniad academaidd, disgwylir i chi gydnabod gwaith pobl eraill drwy ei gyfeirnodi mewn fformat cydnabyddedig a chyson. Bydd angen hefyd i chi ddarparu manylion yr adnoddau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad. Mae nifer o resymau pam mae hyn yn angenrheidiol:

- Dangos ehangder yr ymchwil rydych wedi ymgymryd ag ef.
- Ychwanegu hygrededd academaidd at eich dadleuon.
- Galluogi darllenwyr i ddod o hyd i'r ffynonellau rydych wedi'u defnyddio yn eich gwaith.
- Cydnabod gwaith pobl eraill ac osgoi llên-ladrad damweiniol.

## Sut dylwn i osgoi llên-ladrad?

Mae cyfeirnodi'n gywir hefyd yn golygu eich bod yn osgoi llên-ladrad, sef honni mai chi a luniodd waith rhywun arall. Gellir dod o hyd i ddiffiniad cyflawn y Brifysgol o lên-ladrad yn rheoliadau'r Brifysgol: **https://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/rheoliadaur-brifysgol-canllawiau-ar-gyfer-myfyrwyr/**

Gall llên-ladrad fod yn fwriadol neu'n ddamweiniol; heb gyfeirnodi cywir, mae'n bosibl llên-ladrata gwaith rhywun arall yn ddamweiniol. Felly, bydd deall sut a phryd i gyfeirnodi'n eich helpu i osgoi hyn yn hawdd.

## Oes gennych unrhyw gyngor cyn i mi ddechrau fy ngwaith?

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa arddull gyfeirnodi mae'ch Ysgol yn ei hargymell cyn dechrau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn eich Llawlyfr Rhaglen Astudio.
- Cadwch gofnod o'r ffynonellau rydych yn eu darllen wrth fynd.
- Byddwch yn gyson yn y cofnodion a gadwch ac yn y ffordd y byddwch yn cyfeirnodi.
- Rhowch ddigon o amser i chi wirio'ch gwaith.
- Ceisiwch roi'ch hun yn lle'r darllenydd. Meddyliwch: "os oeddwn yn dymuno dod o hyd i ffynhonnell y wybodaeth yma, fyddwn i'n gallu?"
- Os nad ydych yn siŵr, ceisiwch eglurhad neu ofyn am help!

## Sut caf i help a chefnogaeth bellach?

Cewch sesiwn ar gyfeirnodi yn eich dosbarth yn ystod blwyddyn gyntaf eich cwrs, a bydd gweithdai rheolaidd a chyfleoedd i alw heibio hefyd ar gael ar hyd y flwyddyn academaidd drwy ein rhaglen Sgiliau Gwybodaeth: **https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/infoskills/**. Dilynwch **@UWTSDLib** ar Facebook, Twitter neu Instagram i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bryd ac ymhle y bydd y rhain yn cael eu cynnal.

Mae Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd ar gyfer pob maes academaidd, a'i rôl yw eich cefnogi gydag amryw o sgiliau gwybodaeth ar hyd eich cwrs. Gallwch weld pwy yw'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a gwneud apwyntiad yma: **https://UWTSD.ac.uk/cy/llyfrgell/hanfodion-myfyrwyr/cwrdd-ach-llyfrgellydd-cyswllt-academaidd/** neu drwy alw yn eich llyfrgell agosaf yn y Drindod Dewi Sant.

Mae cymorth ar gyfer cyfeirnodi hefyd ar gael gan Wasanaethau Myfyrwyr, ac mae sesiynau galw heibio ar sgiliau astudio ar gael ar draws y campysau.

Dylai myfyrwyr mewn Sefydliadau Partner holi yn y llyfrgell yn eu sefydliad cartref i gael gwybod pa safon y dylent ei defnyddio a ble i gael cymorth.

# Cyfeirnodi APA: Yr Hanfodion

Mae arddull gyfeirnodi APA yn cynnwys y canlynol:

## Cyfeiriadau yn y testun

Defnyddir y rhain wrth gyfeirio at ffynhonnell gwybodaeth o fewn testun eich aseiniad i ddangos o ble y daeth. Rhowch gyfenw'r awdur a'r flwyddyn cyhoeddi'n ei ddilyn; mae angen rhif tudalen hefyd wrth wneud dyfyniad. Gellir gwneud cyfeiriadau mewn dau fformat – mewn cromfachau a naratif. Mae'r cyntaf yn cael eu hamgáu'n gyfan gwbl mewn cromfachau crwn, mae cyfeiriadau naratif yn cynnwys rhan o'r cyfeiriad yn strwythur y frawddeg.

**Cyfeiriad mewn cromfachau:**

Mae dŵr yn rhan hanfodol o ddiet pawb ac o'r holl faethynnau sydd eu hangen ar gorff i weithredu. Mae angen mwy o ddŵr arno bob dydd nag unrhyw faethyn arall (Whitney & Rolfes, 2011).

**Cyfeiriad naratif:**

Dywed Whitney a Rolfes (2011) fod angen llawer o faethynnau ar y corff i weithredu ond nodant fod dŵr yn fwy pwysig nag unrhyw faethyn arall.

Mae dau fath o ddeunydd sy'n cael eu cyfeirnodi yn y testun yn unig ac nid ydynt yn cael eu darparu yn y rhestr gyfeiriadau. Rhain yw gweithiau clasurol (megis y Beibl neu'r Qur'an) y mae'u hadrannau'n rhai safonol, a chyfathrebu personol.

## Rhestr gyfeiriadau

Pwrpas y cyfeiriad yn y testun yw'ch cyfeirio at fanylion llawn y cyhoeddiad mewn rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith. Dylai rhestr gyfeiriadau gynnwys cofnod llyfryddiaethol llawn yr holl ffynonellau y cyfeiriwyd atynt yn eich testun. Ei diben yw galluogi darllenydd i ddod o hyd i'ch ffynhonnell wreiddiol.

**Cyfeiriad llawn:**

Whitney, E., & Rolfes, S. (2011). *Understanding nutrition* (12th ed.). Wadsworth Cengage Learning

1. Trefnir y rhestr gyfeiriadau yn nhrefn y wyddor yn ôl cyfenw'r awdur cyntaf neu'r golygydd.
2. Os oes mwy nag un gwaith gan yr un awdur, trefnwch nhw yn ôl y dyddiad cyhoeddi - yr hynaf i'r diweddaraf (byddai cyhoeddiad o 2004 yn ymddangos cyn cyhoeddiad o 2008).
3. Os nad oes awdur, defnyddiwch y teitl, a rhowch ef yn nhrefn y wyddor yn ôl y gair arwyddocaol cyntaf, gan eithrio geiriau megis "A", "The", "Y", ac "Yr".
4. Defnyddiwch "&" yn lle "and, a/ac" wrth restru nifer o awduron ar gyfer un ffynhonnell.
5. Rhaid i'r rhestr gyfeiriadau ddefnyddio bwlchiad dwbl â mewnoliad crog.
6. Rhowch briflythyren ar air cyntaf y teitl, a'r is-deitl, os oes un, yn unig; hefyd rhowch briflythyren ar unrhyw enwau priod - h.y. dim ond y geiriau hynny a fyddai'n cael priflythyren fel arfer.
7. Rhowch deitl y llyfr, teitl y cylchgrawn/cyfnodolyn a theitl y ddogfen ar y we mewn italig.
8. Peidiwch â chreu rhestrau ar wahân ar gyfer pob math o ffynhonnell gwybodaeth. Bydd llyfrau, erthyglau, dogfennau ar y we, ac ati oll yn nhrefn y wyddor mewn un rhestr.

# Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhoi yn fy ngwaith?

## Dyfyniadau

Ystyr dyfyniad yw'ch bod yn atgynhyrchu deunydd a ddefnyddiwyd gan awdur arall, gair am air, ac yn ei osod yn eich gwaith. Dylid defnyddio dyfyniadau uniongyrchol yn gynnil, ac ond pryd maent yn berthnasol i'r ddadl rydych yn ei gwneud yn eich gwaith. Dylech bob amser gynnwys y rhif tudalen penodol yn y cyfeiriad yn y testun a chyfeiriad cyflawn yn y rhestr gyfeiriadau.

### Dyfyniad hir - mwy na 40 gair

**Fformat:**

- Crëwch baragraff ar wahân
- Mewnosodwch y paragraff
- Nid oes angen dyfynodau
- Nodwch y cyfeiriad yn y testun ar ei ôl (cyfenw'r awdur, dyddiad a rhif tudalen)

**Enghraifft:**

> Mae addysgu seiliedig ar egwyddorion a dysgu seiliedig ar egwyddorion yn bwysig yn y byd nyrsio, yn enwedig yng nghyswllt sgiliau clinigol. Fel arfer addysgir sgiliau clinigol yn ôl egwyddorion, ac mae hyn yn golygu bod y myfyriwr yn dysgu egwyddorion allweddol sy'n gysylltiedig â'r sgil, ac wedyn yn cymhwyso'r egwyddorion hynny wrth fynd ati i berfformio'r sgil (Hally, 2009, t.6).

### Dyfyniad byr - hyd at 40 gair

**Fformat:**

- Cynhwyswch ef yng nghorff y testun
- Amgaewch ef mewn dyfynodau dwbl “”
- Nodwch y cyfeiriad yn y testun ar ei ôl (cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi a rhif tudalen)

**Enghraifft:**

Mae dysgu hunan-gyfeiriol yn derm “with which you will become familiar as you study in Australia or New Zealand. Students are expected to take responsibility for their own learning and organise their own study” (Hally, 2009, t. 7).

## Aralleirio a chrynhoi

Aralleirio yw pan fyddwch yn cymryd syniad rhywun arall ac yn ei roi yn eich geiriau eich hun. Crynhoi yw pan fyddwch yn rhoi trosolwg cryno o syniad rhywun arall. Mae'r APA yn annog darparu rhif tudalen os byddai'n helpu i ddod o hyd i ddarn perthnasol mewn testun hir. Dilynwch eich barn eich hun a ydy hyn yn angenrheidiol.

**Enghraifft:**

Ymhlith samplau epidemiolegol, gwelai Kessler (2003) fod anhwylder gorbryder cymdeithasol cynnar yn arwain at gwrs mwy cryf a difrifol.

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 1. Llyfrau ac e-lyfrau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at lyfrau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Mae angen cyfeirnodi fersiwn electronig teitl ond os ydy'n wahanol i'r fersiwn printiedig. Dylech gynnwys yr un elfennau â'r fersiwn printiedig gan ychwanegu'r wybodaeth adalw electronig sy'n angenrheidiol i ddod o hyd i'ch ffynhonnell.  Darperir enghreifftiau penodol.

**Cyfeiriad yn y testun:**

- Cyfenw'r awdur
- Blwyddyn cyhoeddi
- Rhif tudalen os oes angen

**Rhestr gyfeiriadau:**
**Printiedig**

- Cyfenw'r awdur,
- Blaen-lythrennau.
- (Blwyddyn cyhoeddi).
- *Teitl* (argraffiad).
- Cyhoeddwr.

**Os ydy ar gael ar-lein yn unig, gwnewch yn siŵr bod y DOI wedi'i gynnwys yn y cyfeiriad ar ôl enw'r cyhoeddwr**

- https://doi.org/xxxxxx

### 1.1 Llyfr ag un neu ddau awdur

(Collier, 2008)

Collier, A. (2008). *The world of tourism and travel*. Pearson Education New Zealand.

(Whitney & Rolfes, 2011)

Whitney a Rolfes (2011)

Whitney, E., & Rolfes, S. (2011). *Understanding nutrition* (12th ed.). Wadsworth Cengage Learning.

### 1.2 Llyfr â thri i ugain awdur

Yn achos pob cyfeiriad, yn cynnwys y defnydd cyntaf o'r cyfeiriad, dylid cynnwys cyfenw'r awdur cyntaf gydag et al. yn ei ddilyn.

(Watson et al., 2008)

Watson, R., McKenna, H., Cowman, S., & Keady, K. (2008). *Nursing research: Designs and methods*. Churchill Livingstone Elsevier.

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 1.3 Pennod mewn llyfr â golygydd

(Palmer, 2007)

Palmer, F. (2007). Treaty principles and Maori sport: Contemporary issues. In C. Collins & S. Jackson (Eds.), *Sport in Aotearoa/New Zealand society* (2nd ed., pp. 307-334). Thomson.

## 1.4 Llyfr heb awdur

Defnyddiwch y teitl.

**Fformat mewn cromfachau**
(*How to make an impact*, 2009)

**Fformat naratif**
… as explained in *How to make an impact* (2009).

*How to make an impact*. (2009). Avery and Perch.

## 1.5 Llyfr â sefydliad fel awdur

Defnyddiwch enw llawn y Sefydliad. Os oes ganddo acronym adnabyddus, gellir ei gynnwys yn y cyfeiriad cyntaf a'i ddefnyddio mewn cyfeiriadau dilynol.

**Fformat mewn cromfachau, cyfeiriad cyntaf**
(American Psychological Association [APA], 2013)

**Fformat mewn cromfachau, cyfeiriadau dilynol**
(APA, 2013)

**Fformat naratif, cyfeiriad cyntaf**
American Psychological Association (APA, 2013)

**Fformat naratif, cyfeiriadau dilynol**
APA (2013)

American Psychological Association. (2019). *Publication manual of the American Psychological Association* (7th ed.). American Psychological Association.

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 1.6 Nifer o weithiau â'r un awdur

Labelwch nhw a a b. Mae enghraifft o'r fformat mewn cromfachau isod, gellir defnyddio'r fformat naratif hefyd.

**Blynyddoedd gwahanol:**
(McNamara, 2012)

(McNamara, 2017)

**Yr un flwyddyn:**
(Phelps, 2016a)

(Phelps, 2016b)

**Blynyddoedd gwahanol:**

McNamara, B. M. (2012). *Education for life*. Riverstory.

McNamara, B. M. (2017). *Lifelong learning*. Riverstory.

**Yr un flwyddyn:**

Phelps, P. J. (2016a). *Healthy learning*. Castle Books.

Phelps, P. J. (2016b). *Nutrition in the early years*. Castle Books.

## 1.7 Argraffiadau

Yn ôl O'Brien (2016) gall brodyr a chwiorydd gael effaith fawr ar ddysgu.

O'Brien, T. M. (2016). *The impact of families on learning* (3rd ed.). Blackwater Books.

## 1.8 Cyfeiriad eilaidd

Mae hwn yn ddarn o waith nad ydych wedi'i ddarllen eich hun, ond bod cyfeiriad ato mewn deunydd rydych wedi'i ddarllen. Pan fo'n bosibl, darllenwch y gwaith gwreiddiol. Os nad yw hyn yn bosibl, peidiwch â chynnwys y gwaith gwreiddiol yn eich rhestr gyfeiriadau.

Mae enghraifft o'r fformat naratif isod; gellir defnyddio'r fformat mewn cromfachau hefyd.

**Fformat naratif, gyda dyfyniad**
Disgrifia Barnett (2013, fel y'i dyfynnwyd yn Morton, 2016, t.17) "the importance of meeting special needs in the early years".

**Fformat naratif, heb ddyfyniad**
Mae arddangosiad Barnett o bwysigrwydd diwallu anghenion arbennig yn y blynyddoedd cynnar (2013, fel y'i dyfynnwyd yn Morton, 2016) yn ddiddorol.

Morton, D. C. (2016). *Learning in the early years*. Jones & Bart.

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 2. Erthyglau cyfnodolion

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at erthyglau cyfnodolion lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol. Os nad yw'r DOI ar gael a chyrchwyd yr erthygl ar-lein, rhowch URL tudalen gartref y cyfnodolyn. Mae angen dyddiadau adalw ar gyfer gwefannau lle gall gwybodaeth newid dros amser yn unig.

Sylwer bod yr arferion yng nghyswllt nifer yr awduron yr un peth i erthyglau cyfnodolion ag i lyfrau – gweler adran 1.

**Cyfeiriad yn y testun:**
- Cyfenw'r awdur
- Blwyddyn cyhoeddi
- Rhif tudalen os oes angen

**Rhestr gyfeiriadau:**
**Printiedig ac electronig:**
- Cyfenw'r awdur,
- Blaen-lythrennau.
- (Blwyddyn cyhoeddi).
- Teitl yr erthygl. Rhowch briflythyren ar air cyntaf y teitl a'r is-deitl, os oes un, yn unig, ac ar enwau priod. Defnyddiwch golon (:) rhwng y teitl a'r is-deitl.
- *Teitl y cyfnodolyn mewn italig,*
- *Cyfrol mewn italig*
- (Rhifyn/rhan),
- Ystod rhifau tudalen yr holl erthygl.
- DOI (pan fo ar gael)

### 2.1 Erthygl mewn cyfnodolyn printiedig neu electronig, gyda doi

**Fformat mewn cromfachau, pob defnydd o'r cyfeiriad**
(Judge et al., 2002)

**Fformat naratif, pob defnydd o'r cyfeiriad**
… fel y'i dangosir gan Judge et al. (2002)

Judge, T. A., Bono, J. E., Ilies, R., & Gerhardt, M. W. (2002). Personality and leadership: A qualitative and quantitative review. *Journal of Applied Psychology*, *87*(4), 765-780. https://doi.org/10.1037//0021-9010.87.4.765

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 3. Rhyngrwyd

Pan fo'n bosibl, dylech gynnwys gwybodaeth debyg, yn yr un drefn, ag y byddech ar gyfer mathau eraill o wybodaeth a ffynonellau eraill (pwy, pryd, beth), ac wedyn ychwanegu'r wybodaeth adalw electronig sydd ei hangen er mwyn i bobl ddod o hyd i'r deunydd rydych wedi cyfeirio ato (ble). Mae angen dyddiadau adalw ar gyfer gwefannau lle gall gwybodaeth newid dros amser yn unig.

**Cyfeiriad yn y testun:**
- Cyfenw'r awdur
- Blwyddyn cyhoeddi

**Rhestr gyfeiriadau:**
- Cyfenw a blaen-lythrennau'r awdur, neu sefydliad
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl y ddogfen neu'r dudalen we mewn italig
- http://www.xxxxxx

### 3.1 Gwefan ag awdur

Roedd McCormack (2016) yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol.

McCormack, E. F. (2016). *Dog breed characteristics*. http://www.dogbreedchar.co.uk/

### 3.2 Gwefan â sefydliad fel awdur

**Fformat mewn cromfachau, cyfeiriad cyntaf**
Gall anifeiliaid anwes gael effaith fuddiol ar iechyd (National Health Service [GIG], 2015).

**Fformat naratif, cyfeiriadau dilynol**
Mae astudiaeth gan y GIG (2015) wedi dangos bod...

National Health Service. (2015). *Pets and Health*. http://www.nhs.uk/Petsandhealth

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 4. Cyfarfodydd a symposia

Os cyhoeddir trafodion mewn llyfr, defnyddiwch yr un fformat ag ar gyfer llyfr – gweler adran 1. Os cyhoeddir trafodion yn rheolaidd, defnyddiwch yr un fformat ag ar gyfer cyfnodolyn – gweler adran 2.

### 4.1 Cyfraniad i symposiwm ar ffurf llyfr

Dangosodd Ferguson (2016) sut gall mentrau busnes bach weithiau elwa o gyhoeddusrwydd anffafriol.

Ferguson, J. P. (2016). Small business success. In P. Canning (Ed.), *Proceedings of the Society of Small Business Enterprises: 2016*. (pp.67-72). Bates Books.

### 4.2 Papur symposiwm unigol a gyhoeddir yn rheolaidd ar-lein

(Cannan, et al., 2008).

Cannan, J., Phillips, T., Brown, A. & Willis, P. (2008). Using practice based learning at a dual-sector tertiary institution: A discussion of current practice. *Proceedings of the National Association for Cooperation in Education 15*, 25-34. https://doi.org/ 10.1563/nace.0673421962

### 4.3 Papur symposiwm heb ei gyhoeddi

Gwelwyd bod cŵn yn enwedig yn lleddfu amodau straen (Spedding, 2015).

Spedding, B. (2015, May). The use of dogs in stress reduction. In P. Phillips (Chair), *New approaches to wellbeing*. Symposium conducted at the meeting of the Society of Well-being Practitioners Society, Washington, DC.

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 5. Gwybodaeth heb ei chyhoeddi a chyfweliadau personol

Mae hyn yn cynnwys deunydd nad yw wedi'i gyhoeddi'n ffurfiol ond sydd ar gael ar wefan bersonol neu sefydliadol, neu mewn archif ragargraffu. Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau nad ydynt yn y parth cyhoeddus lynu at y fformatau cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

### 5.1 Adroddiad heb ei gyhoeddi

**Cyfeiriad yn y testun:**

- Cyfenw'r awdur / sefydliad
- Blwyddyn cyhoeddi
- Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Rhestr gyfeiriadau:**

- Cyfenw'r awdur, neu sefydliad.
- Blaen-lythrennau'r awdur.
- (Blwyddyn cyhoeddi).
- *Teitl*
- (Rhif yr Adroddiad xxx).
- Enw'r sefydliad.

(Carlisle Hospital Trust, 2018)

Carlisle Hospital Trust. (2018). *Guidelines for staff wellbeing* (18/3). Cumbria County Council.

### 5.2 Cyfweliad personol

Ni ddylid cynnwys cyfweliadau personol yn y rhestr gyfeiriadau, ond gellir eu defnyddio mewn cyfeiriad yn y testun. Gwnewch yn siŵr fod gennych ganiatâd gan y cyfwelai cyn defnyddio'r wybodaeth hon.

Mae menywod a weithiodd yn y diwydiant arfau rhyfel yn ystod yr Ail Ryfel Byd wedi pwysleisio'r rhyddid a deimlent ar yr adeg honno (S. Hughes, cyfathrebiad personol, 2011).

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 6. Traethodau ymchwil Doethuriaeth a thraethodau hir Meistr

Yn gyffredinol mae traethodau hir a thraethodau ymchwil naill ai'n weithiau heb eu cyhoeddi, a adalwyd mewn fformat printiedig yn uniongyrchol o'r coleg neu'r brifysgol, neu'n weithiau cyhoeddedig sydd ar gael drwy gronfa ddata, archif neu wefan bersonol. Os bydd traethawd hir neu draethawd ymchwil yn cael ei adalw o ffynhonnell gyhoeddedig, dylid cynnwys y wybodaeth hon yn y cyfeiriad.

**Cyfeiriad yn y testun:**

- Cyfenw'r awdur / sefydliad
- Blwyddyn cyhoeddi
- Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Rhestr gyfeiriadau:**

- Cyfenw'r awdur,
- Blaen-lythrennau.
- (Blwyddyn cyflwyno).
- *Teitl*.
- Rhif Cyhoeddi
- [Traethawd ymchwil Doethurol]. neu [Traethawd hir Meistr].
- Enw'r sefydliad,
- Enw'r gronfa ddata neu'r archif.

### 6.1 Traethawd hir neu draethawd ymchwil heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| (Trevor, 2017) | Trevor, B. A. (2017). *An assessment of social media content on foundation stage pupils*. [Unpublished doctoral dissertation]. University of Essex. |

### 6.2 Traethawd hir neu draethawd ymchwil sydd ar gael gan wasanaeth cronfa ddata

| | |
|---|---|
| Mae ymchwil diweddar wedi dangos cydberthyniad rhwng presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol poblogaidd a gwerthiannau uwch (Sloane, 2016). | Sloane, D. E. (2016). *Social media and marketing in the entertainment industry*. (Publication No. 5326716) [Master's thesis]. Cronfa ddata ProQuest Dissertations and Theses. |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 7. Adroddiadau a chanllawiau

Gellir cyhoeddi adroddiadau ymchwil mewn cyfnodolyn. Os felly, defnyddiwch yr un fformat ag ar gyfer erthygl cyfnodolyn – gweler adran 2. Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at adroddiadau a chanllawiau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

**Cyfeiriad yn y testun:**

- Cyfenw'r awdur / sefydliad
- Blwyddyn cyhoeddi
- Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Rhestr gyfeiriadau:**
**Printiedig:**

- Cyfenw'r awdur,
- Blaen-lythrennau neu awdur sefydliadol.
- (Blwyddyn cyhoeddi).
- *Teitl*
- (Rhif yr Adroddiad xxx).
- Cyhoeddwr.

**Electronig:**
Os nad yw eisoes wedi'i nodi fel yr awdur, nodwch y cyhoeddwr fel rhan o'r datganiad adalw.

### 7.1 Adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd ar ffurf llyfr

Mae trethi'n amrywio'n sylweddol rhwng bwrdeistrefi (Phelps, 2016).

Phelps, P. W. (2016). *A study of business rates in London* (Report No. 53). http://www.ror.org/library/report-4/5-033.pdf

### 7.2 Canllawiau ar-lein

Mae'r canllawiau'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn yn y sefyllfa hon (Hove Hospital, 2015).

Hove Hospital. (2015). *Emergency intervention procedures* (Guide No. 34). http://www.sussexhosp.nhs/library/guide18/34-95.pdf

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 8. Cyhoeddiadau cyfreithiol

Mae'r APA yn darparu enghreifftiau o gyfeiriadau cyfreithiol sy'n berthnasol i UDA yn unig. Ni ddylid cynnwys Deddfau Seneddol ac achosion cyfreithiol Prydeinig mewn rhestrau cyfeiriadau. Dylid eu cynnwys fel cyfeiriad yn y testun yn unig – cyfeirnodwch enw swyddogol neu fwyaf poblogaidd y ddeddf a'r flwyddyn.

### 8.1 Deddf Seneddol

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad yn y testun:**<br>(Teitl y Ddeddf, blwyddyn cyhoeddi) | (Air Quality Control Act, 2012) |

### 8.2 Deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae gan bob Mesur gyfeirnod, a ddylai gael ei gynnwys yn y cyfeiriad, os ydy'n hysbys.

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad yn y testun:**<br>**Mesurau'r Cynulliad**<br>(Teitl y Mesur, blwyddyn cyhoeddi, cyfeirnod) | (Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), 2010, mccc 8) |
| **Offerynnau Statudol**<br>• Teitl yr Offeryn<br>• (Blwyddyn cyhoeddi, cyfeirnod) | … fel y dangosir yn yr offeryn statudol Enhanced Wind Farm Density (Wales) (2015/23) |

### 8.3 Adroddiad cyfreithiol (achos)

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad yn y testun:**<br>• *Enwau partïon yr achos*<br>• [Blwyddyn yr adroddiad]<br>• Talfyriad o enw'r adroddiad<br>• Rhif y dudalen gyntaf | *R v. Jones* [2004] EWCA 1 |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 9. Cyhoeddiadau'r llywodraeth

**Cyfeiriad yn y testun:**

- Cyfenw'r awdur neu sefydliad
- Blwyddyn cyhoeddi
- Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Rhestr gyfeiriadau:**

- Enw adran y llywodraeth.
- (Blwyddyn cyhoeddi).
- Teitl.
- (Cyfeirnod os ydy'n hysbys).
- Cyhoeddwr.

**Os ydy ar gael ar-lein yn unig, dylid cynnwys yr URL**

- http://www.xxxxxx

Mae newidiadau yn amodau'r hinsawdd a ragfynegwyd wedi arwain at ailystyried rôl rhwystrau llifogydd (Department of the Environment, 2014).

Department of the Environment. (2014). *Erratic Climate Conditions and the Role of Natural Flood Barriers*. http://www.doe.gov.uk/en/Publicationsand statistics/Publications/PublicationsPolicyand Guidance/DOE 76453

# Meddalwedd Gyfeirnodi

Pan fyddwch wedi meistroli hanfodion cyfeirnodi gan ddefnyddio'r llawlyfr hwn a'r adnoddau ategol a argymhellir, gallwch ystyried symud ymlaen at feddalwedd ar-lein. Mae'r Llyfrgell yn rhoi mynediad i **RefWorks**, rhaglen ar-lein sy'n eich helpu i gofnodi'ch ffynonellau mewn un lle ac yn rhoi cymorth i chi eu cyfeirnodi. Cewch fynediad ati ar wefan y llyfrgell, gan ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi yn y Drindod Dewi Sant: **https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/hanfodion-myfyrwyr/refworks/**

Hefyd mae amrywiaeth o ddewisiadau cod agored megis Zotero a Mendeley ar gael sy'n gallu darparu gweithrediadau tebyg, fodd bynnag sylwer nad yw'r Drindod Dewi Sant yn rhoi cymorth ar gyfer defnyddio'r platfformau hyn nac yn darparu unrhyw feddalwedd gysylltiedig ar offer TG y Brifysgol.

Er gall meddalwedd gyfeirnodi fod yn offeryn defnyddiol dros ben ar gyfer trefnu'ch ymchwil, nid yw bob amser yn gywir 100% ac ni ddylai gymryd lle datblygu'r sgiliau hyn eich hun. Byddai'n ddoeth cael dealltwriaeth o gyfeirnodi cyn i chi symud at ddefnyddio un o'r platfformau hyn; mae'n hanfodol gwirio'ch cyfeiriadau am gywirdeb, yn enwedig yr atalnodi a phriflythrennau.

Fodd bynnag, os teimlwch eich bod yn barod i ddefnyddio meddalwedd gyfeirnodi neu os hoffech ddarganfod rhagor amdani, defnyddiwch y tiwtorialau ar-lein sydd ar gael ar wefan RefWorks, neu cysylltwch â'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a fydd yn hapus i'ch cefnogi.